

*Y Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn  
yr Eglwys yng Nghymru*

*The Book of Common Prayer for use in  
the Church in Wales*

GWASANAETHAU BEDYDD  
A CHONFFYRMASIWN  
(BEDYDD ESGOB)

SERVICES FOR  
CHRISTIAN INITIATION

*Yr Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn  
yr Eglwys yng Nghymru*

GWASANAETHAU BEDYDD  
A CHONFFYRMASIWN  
(BEDYDD ESGOB)

2006

Hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru a  
Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2007

Cyhoeddwyd yn 2007 gan Canterbury Press Norwich  
(Argraffnod o'r Hymns Ancient & Modern Cyf,  
elusen gofrestredig),

St Mary's Works, St Mary's Plain, Norwich, Norfolk, NR3 3BH  
gwefan: [www.scm-canterburypress.co.uk](http://www.scm-canterburypress.co.uk)

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu, na chadw ar system adfer, unrhyw  
ran o'r cyhoeddiad hwn na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy  
unrhyw gyfrwng electronig, mecanyddol, llungopïo, recordio neu fel arall,  
heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw oddi wrth ddeiliad yr hawlfraint  
priodol.

Mae cofnod catalog o'r llyfr hwn ar gael yn y Llyfrgell Brydeinig

ISBN-13: 978 1 85311 758 9

Cynlluniwyd a chysodwyd mewn Perpetua  
gan Simon Kershaw, crucix, gwefan: [www.crucix.com](http://www.crucix.com)

Caligraffeg y clawr gan Shirley Norman

Cynllun y clawr gan Leigh Hurlock

Argraffwyd a rhwymwyd ym Mhrydain Fawr gan William Clowes Cyf,  
Beccles, Suffolk

Copyright © Church in Wales Publications and the  
Representative Body of the Church in Wales 2007

Published in 2007 by the Canterbury Press Norwich  
(a publishing imprint of Hymns Ancient & Modern Limited,  
a registered charity),

St Mary's Works, St Mary's Plain, Norwich, Norfolk, NR3 3BH  
[www.scm-canterburypress.co.uk](http://www.scm-canterburypress.co.uk)

All rights reserved. No part of this publication may be reproduced,  
stored in a retrieval system, or transmitted, in any form or by any means,  
electronic, mechanical, photocopying, recording or otherwise, without  
prior permission in writing from the relevant copyright holder.

A catalogue record for this book is available from the British Library

ISBN-13: 978 1 85311 758 9

Designed and typeset in Perpetua  
by Simon Kershaw at crucix [www.crucix.com](http://www.crucix.com)

Cover calligraphy by Shirley Norman

Cover design by Leigh Hurlock

Printed and bound in Great Britain by William Clowes Ltd, Beccles, Suffolk

# CYNNWYS

Nodiadau Cyffredinol 8

Trefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod

Strwythur 14

Nodiadau 16

Y Drefn 18

Atodiadau 44

Trefn ar gyfer Bedydd gyda Chonffyrmasiwn  
(Bedydd Esgob)

Strwythur 58

Nodiadau 60

Y Drefn 64

Atodiadau 90

## NODIADAU CYFFREDINOL

- 1 Fel rheol, dylai'r Gwasanaeth Bedydd a/neu Gonffyrmasiwn ddigwydd yn ystod addoliad cyhoeddus y Sul.
- 2 Yr esgob bob amser fydd yn gweinyddu mewn gwasanaeth Bedydd gyda Chonffyrmasiwn [Bedydd Esgob]. Gall esgob neu offeiriad weinyddu Bedydd Cyhoeddus Babanod. Oni bydd esgob nac offeiriad ar gael, y mae'n gyfreithlon i ddiakon weinyddu Bedydd. (Gweler hefyd Nodyn 9 isod ar fedyddio mewn argyfwng.)
- 3 Defnyddir y term 'rhieni bedydd' i ddynodi'r rhai y gofynnwyd iddynt gyflwyno plant i'w bedyddio a pharhau i'w cefnogi. Defnyddir y termau 'cefnogwr' a 'chefnogwyr' i ddynodi'r unigolyn neu'r unigolion a gytunodd i gefnogi ymgeiswyr (o ba oedran bynnag) am fedydd a/neu fedydd esgob. Nid oes rhaid i ymgeisydd ddewis rhiant bedydd yn gefnogwr. Rhaid i rieni bedydd a chefnogwyr fod yn Gristnogion bedyddiedig, a byddai'n ddymunol pe byddent yn gymunwyr cyson yn yr Eglwys yng Nghymru neu mewn Eglwys sydd mewn cymunedb â hi.
- 4 Dylid defnyddio'r Colect a'r Darlleniadau priodol ar y Suliau a'r Gwyliau a restrir yng ngrwpiau I a II yn y Calendr Newydd (2003). Ar achlysuron eraill, gellir defnyddio'r Colect a'r Darlleniadau a restrir yn y Drefn ar gyfer Bedydd gyda Chonffyrmasiwn [Bedydd Esgob] ac yn y Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod.
- 5 Y mae gweinyddu dŵr y bedydd deirgwaith (naill ai trwy drochiad neu daenelliad) yn hen arfer yn yr Eglwys, ac fe'i hargymhellir am ei bod yn tystio i'r ffydd Drindodaidd y bedyddir ymgeiswyr iddi. Fodd bynnag, y mae'n gyfreithlon ac yn ddilys gweinyddu dŵr y bedydd unwaith yn unig. Peth dymunol yw defnyddio cryn dipyn o ddŵr; dylai'r dŵr o leiaf lifo dros groen yr ymgeisydd.
- 6 Onid yw'n sicr a fedyddiwyd neb â dŵr yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, ffurf y geiriau yn y bedydd fydd: 'E, oni'th fedyddiwyd di eisoes, yr wyf yn dy fedyddio yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.**'

- 7 Bendithir yr olewau sanctaidd gan yr esgob yn ystod  
Tymor y Dioddefaint bob blwyddyn. Yn y Gwasanaethau  
hyn, gellir dewis eu defnyddio neu beidio.
- 8 Awgrymir defnyddio emynau, salmau a chaneuon addas  
eraill, fel y mae'n gymwys i'r amgylchiadau lleol, yn rhai  
o'r manau a ganlyn yn y gwasanaeth, neu yn y cyfan  
ohonynt: wrth i'r gweinidogion ddod i mewn, rhwng y  
darlleniadau, ar ôl y Nodi â'r Groes (onid yw'r esgob  
neu'r offeiriad sy'n gweinyddu, yr ymgeiswyr a'u rhieni  
bedydd/cefnogwyr eisoes wrth y fedyddfan) ac yn ystod  
cynnau a rhannu'r canhwyllau bedydd, yn enwedig pan  
dderbyniodd nifer fawr o ymgeiswyr fedydd neu fedydd a  
bedydd esgob.
- 9 Mewn argyfwng, gall person lleyg weinyddu bedydd.  
Rhoddir manylion ychwanegol yn Atodiad 1 i'r *Drefn  
ar gyfer Bedydd gyda Chonffyrmasiwn [Bedydd Esgob]* ac  
Atodiad 1 i'r *Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod*.

TREFN AR GYFER BEDYDD  
CYHOEDDUS BABANOD

## **STRWYTHUR Y DREFN AR GYFER BEDYDD CYHOEDDUS BABANOD**

*Y mae strwythur llawn y Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus  
Babanod fel a ganlyn.  
Cyfeirier at y Nodiadau am wybodaeth fanwl.  
Ni raid defnyddio'r eitemau a farciwyd gyda \*.*

### **1 Y DOD YNGHYD**

Cyfarchion  
\* Brawddeg o'r Ysgrythur ac ymateb  
Cyflwyno'r Ymgeiswyr  
Colect

### **2 CYHOEDDI'R GAIR**

Darlleniad o'r Hen Destament  
Salm  
Darlleniad o'r Testament Newydd  
Efengyl  
Pregeth

### **3 LITWRGI BEDYDD**

- 1 Y Penderfyniad
- 2 Y Nodi â'r Groes
- 3 Y Gyffes Ffydd
- 4 Bendithio Dŵr y Bedydd
- 5 Y Bedyddio
- 6 \* Cyflwyno'r Goleuni

### **4 YTANGNEFEDD**

### **5 CYMUN Y BEDYDD**

Y Diolch  
Y Cymun

### *Neu* **6 GWEDDIAU**

Gweddi'r Arglwydd  
Gweddiau eraill

### **7 YR ANFON ALLAN**

Gweddi ôl-Gymun  
Bendith  
\* Cyflwyno'r Goleuni  
Anfon allan

## NODIADAU

*Dylid darllen y Nodiadau hyn ar y cyd â'r Nodiadau Cyffredinol ar dudalen 8.*

- 1 Y mae'n gyfrifoldeb ar Gristnogion i ddod â'u plant i dderbyn Bedydd Sanctaidd.  
Y mae rhieni plant a fedyddiwyd, yn gydgyfrifol, gyda'r rhieni bedydd a'r eglwys leol, am feithrin y plant yn y ffydd a'r bywyd Cristnogol. Dylid gwneud pob ymdrech i alluogi plant a fedyddiwyd i ddod yn aelodau gweithredol o'r gymdeithas sy'n addoli, i dderbyn hyfforddiant cymwys yn y ffydd Gristnogol, ac, yng nghyflawnder yr amser, i gael eu conffirmio gan yr esgob.
- 2 Pan fo babanod i'w bedyddio, dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw gydag offeiriad y plwyf. Dylai'r rhai sy'n dod â baban i'w fedyddio roi i'r offeiriad enwau o leiaf un tad bedydd ac un mam fedydd. Gall rhieni fod yn rhieni bedydd i'w plant eu hunain, ar yr amod fod o leiaf un rhiant bedydd arall. Rhaid i rieni bedydd fod yn Gristnogion bedyddiedig, a gorau oll os ydynt yn gymunwyr rheolaidd yn yr Eglwys yng Nghymru neu mewn Eglwys sydd mewn cymuned â hi.
- 3 Dylid ymarfer cryn dipyn o hyblygrwydd a dychymyg parthed nifer y darlleniadau, eu hyd a'r dull o'u cyflwyno, a hefyd gyda golwg ar y bregeth.  
Dylid defnyddio o leiaf un darlleniad yn Adran 2. Pan weinyddir bedydd yn ystod y Cymun Bendigaidd, dylid bob amser gynnwys darlleniad o'r Efengyl.  
Gall y gweinidog bregethu ar ddechrau neu ar ddiwedd Adran 1, neu ar ôl y darlleniadau yn Adran 2.
- 4 Yn Adran 3(2), gall y gweinidog wahodd rhieni a rhieni bedydd y plant i gymryd rhan yn y Nodi â'r Groes.  
Pan weinyddir Bedydd yn ystod y Cymun Bendigaidd, gellir defnyddio un neu ragor o'r gweddïau o Adran 6 yn Adran 7.
- 5 Nid yw'n orfodol defnyddio'r olewau sanctaidd yn y Drefn hon. Os defnyddir yr olewau, gellir eneinio'r plant a fedyddir gyda'r olew olewydden pur a adwaenir fel olew disgyblion bedydd naill ai ar derfyn Adran 3(1), neu ynteu wrth arwyddo â'r groes yn Adran 3(2), a gellir defnyddio crism fel y nodir ar derfyn Adran 3(5).

# TREFN AR GYFER BEDYDD CYHOEDDUS BABANOD

## **I** Y DOD YNGHYD

*Y mae'r gweinidog yn croesawu'r teulu ac yn sôn wrthynt am lawenydd arbennig yr achlysur hwn.*

Yn Enw'r Tad,  
a'r Mab,  
a'r Ysbryd Glân.  
**Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi  
**a'th gadw di yng nghariad Crist.**

*Neu, yn Nhyrnor y Pasg*  
Alelwia! Atgyfododd Crist.  
**Atgyfododd yn wir. Alelwia!**

*Gall y gweinidog gyflwyno'r gwasanaeth gydag un o'r canlynol.*

*Naill ai*

Gorchmynnodd ein Harglwydd Iesu Grist, 'Ewch, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.'  
**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Trwy fedydd fe'n claddwyd gyda Christ i'w farwolaeth, fel, megis y cyfodwyd Crist oddi wrth y meirw mewn amlygiad o ogoniant y Tad, y byddai i ninnau gael byw ar wastad bywyd newydd.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Pan fedyddiwyd Crist yn afon Iorddonen, disgynnodd yr Ysbryd megis colomen, a llefarodd y Tad, gan ddweud, 'Ti yw fy Mab, yr Anwylyd; ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu.'  
**I Dduw y bo'r diolch.**

*Yna, y mae'r gweinidog yn annerch y rhieni*

Beth a ofynnwch gan Eglwys Dduw?

**Yr ydym yn gofyn am i'r plentyn hwn gael ei fedyddio.**

Pa enw yr ydych wedi ei roi i'ch plentyn?

*Dywed y rhieni enw'r plentyn wrth y gweinidog.*

*Âr gweinidog rhagddo â'r geiriau hyn, neu eiriau cyffelyb*

Y mae bedyddio ei haelodau newydd yn achlysur o lawenydd mawr i'r Eglwys Gristnogol. Trwy ddŵr a'r Ysbryd fe'n hailenir ni yn blant Duw, a'n gwneud yn ddilynwyr Crist, yn aelodau o'i gorff ef, yr Eglwys, ac yn etifeddion teyrnas nefoedd. A wnewch chwi dderbyn y pethau hyn i E?

**Gwnawn.**

Wrth ofyn am i E gael ei f/bedyddio, yr ydych yn derbyn cyfrifoldeb am ei f/magu yn Gristion. Wrth ofalu *amdano/i*, a wnewch chwi ei g/chynorthwyo i gadw gorchmynion Duw trwy garu Duw a chymydog fel y dysgodd Crist ni? A wnewch chwi weddio *drosto/i*, a'i *dd/denu*, drwy eich esiampl eich hun, i gymdeithas y ffydd?

**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch y rhieni bedydd*

A wnewch chwi gefnogi rhieni E a'u cynorthwyo i wneud y pethau hyn?

**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch yr holl gynulleidfa*

A wnewch chwi groesawu E a gwneud eich gorau i'w g/chynnal yn ei f/bywyd yng Nghrist?

**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.**

*Ac eithrio ar yr achlysuron a nodir yn Nodyn Cyffredinol 4, defnyddir y Colect a ganlyn*

Dad nefol,

trwy rym dy Ysbryd Glân

yr wyt yn rhoddi i'th bobl ffyddlon

fywyd newydd yn nŵr y bedydd:

cyfarwydda a chyfnertha ni trwy'r un Ysbryd,

fel y bo i ni a ailenir dy wasanaethu mewn ffydd a chariad

a thyfu i lawn faintioli dy Fab Iesu Grist,

sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,

yn un Duw, yn awr a byth.

**Amen.**

## 2 CYHOEDDI'R GAIR

*Ac eithrio ar yr achlysuron a nodir yn Nodyn Cyffredinol 4, gellir dewis darlenniadau addas o blith y rhai a restrir isod. Gweler hefyd Nodyn 3.*

### **Darlenniad o'r Hen Destament**

<i>Genesis 7.17-23</i>	<i>Y Dilyw</i>
<i>Exodus 14.19-31</i>	<i>Croesi'r Môr Coch</i>
<i>Deuteronomium 30.15-20</i>	<i>Dewis rhwng dwy ffordd</i>
<i>2 Brenhinoedd 5.1-15a</i>	<i>Iacháu Naaman</i>
<i>Eseia 44.1-5</i>	<i>Yr addewid i was Duw</i>
<i>Eseia 55.1-11</i>	<i>Gwahodd y sychedig</i>
<i>Jeremeia 31.31-34</i>	<i>Y cyfamod newydd</i>
<i>Eseciel 36.25-28</i>	<i>Calon newydd, ysbryd newydd</i>

*Wedyn gall y darlennydd ddweud*

*Naill ai*

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd  
yn ei ddweud wrth yr eglwys.

**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Dyma air yr Arglwydd.

**I Dduw y bo'r diolch.**

### **Darlenniad o'r Testament Newydd**

<i>Actau 16.25-34</i>	<i>Ceidwad y carchar yn Philipi</i>
<i>Rhufeiniaid 6.3-11</i>	<i>Marw a chyfodi yng Nghrist</i>
<i>Rhufeiniaid 8.11-17</i>	<i>Ysbryd mabolaeth</i>
<i>1 Corinthiaid 12.12-13</i>	<i>Un corff yng Nghrist</i>
<i>Galatiaid 4.3-7</i>	<i>Abba, Dad</i>
<i>Galatiaid 5.16-25</i>	<i>Cnawd ac Ysbryd</i>
<i>1 Pedr 2.4-10</i>	<i>Pobl Dduw</i>

*Wedyn gall y darlennydd ddweud*

*Naill ai*

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd  
yn ei ddweud wrth yr eglwys.

**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Dyma air yr Arglwydd.

**I Dduw y bo'r diolch.**

## ***Yr Efengyl***

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant ...  
**Gogoniant i ti, O Arglwydd.**

***Mathew 16.24-27***

***Mathew 28.16-20***

***Marc 1.1-11***

***Marc 1.14-20***

***Marc 10.13-16***

***Ioan 3.1-8***

***Ioan 15.1-11***

*Disgyblion Crist*

*Y comisiwn olaf*

*Bedydd Iesu*

*Y disgyblion cyntaf*

*Bendithio'r plant*

*Nicodemus*

*Y wir winwydden*

Dyma Efengyl yr Arglwydd.  
**Moliant i ti, O Grist.**

## ***Y Bregeth***

*Ni ddywedir y Gyffes Ffydd yma.*

# 3

## LITWRGI BEDYDD

### 1 Y Penderfyniad

*Y mae'r gweinidog yn annerch y rhieni a'r rhieni bedydd*

Yr ydych wedi datgan eich dymuniad ar i *E* gael ei *f'bedyddio*. Yr ydym, felly, yn eich gwahodd yn awr i ymateb i alwad Crist.

A ydych yn troi at Grist?

**Yr wyf yn troi at Grist.**

A ydych yn edifarhau am eich pechodau?

**Yr wyf yn edifarhau am fy mhechodau.**

A ydych yn ymwrthod â'r drwg?

**Yr wyf yn ymwrthod â'r drwg.**

Dad hollalluog,  
anfonaist dy Fab i'n byd  
i ddinistrio galluoedd y tywyllwch.  
Gwrando ein gweddi dros y *plant hyn*:  
Gwared *hwy* rhag drwg,  
dyro *iddynt* oleuni a llawenydd  
a llanw *hwy* â'th Ysbryd Glân,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.  
**Amen.**

*Os defnyddir olew disgyblion bedydd, gellir eneinio ag ef bob plentyn sydd i'w fedyddio naill ai yn y fan hon neu ynteu wrth ei nodi â'r groes.*

### 2 Y Nodi â'r Groes

*Â'r gweinidog rhagddo*

Trwy ei groes a'i werthfawr waed, fe brynodd ein Harglwydd Iesu Grist y byd. Dywedodd wrthym, os oes neb am fod yn ddilynwyr iddo ef, fod yn rhaid iddynt ymwadu â hwy eu hunain, codi eu croes, a'i ganlyn ef ddydd ar ôl dydd.

*Gwneir arwydd y groes ar dalcen pob un sydd i'w fedyddio.*

*E, yr wyf yn dy nodi ag arwydd y groes ac yn dy hawlio di i'n Hiachawdwr Iesu Grist.*

*Ar ôl nodi ag arwydd y groes bob plentyn sydd i'w fedyddio, â'r gweinidog rhagddo*

Na fydded *arnoch / arnat* gywilydd byth  
i gyffesu ffydd y Crist croeshoeliedig.

*Pawb*

**Ymladdwch yn wrol yn erbyn pechod, y byd a'r diafol,  
a byddwch ffyddlon i Grist tra byddi/byddwch byw.  
Amen.**

### **3 Cyffesu'r Ffydd**

*Wrth y fedyddfan, y mae'r gweinidog yn annerch y rhieni a'r rhieni bedydd*  
Fe'ch gwahoddwn yn awr i gyffesu'r ffydd Gristnogol.

A ydych yn credu yn Nuw Dad, Creawdwr pob peth?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad.**

A ydych yn credu yn ei Fab Iesu Grist, Gwarddwr y byd?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Fab.**

A ydych yn credu yn yr Ysbryd Glân, Rhoddwr bywyd?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw'r Ysbryd Glân.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch y gynulleidfa*  
Dyma ffydd yr Eglwys.  
**Dyma ein ffydd ni.**  
**Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,  
Tad, Mab ac Ysbryd Glân.**

### **4 Bendithio Dŵr y Bedydd**

*Defnyddia'r gweinidog un o'r ffurfiau a ganlyn.*

*Naill ai*

Diolchwn i ti, O Dduw:  
**bendithiwn dy enw sanctaidd.**

Am dy rodd o ddŵr, i feithrin a chynnal pob bywyd:  
**rhoddwn iti ddiolch a moliant.**

Trwy ddyfroedd y môr  
arweiniaist blant Israel o gaethwasiaeth i ryddid;  
**rhoddwn iti ddiolch a moliant.**

Ar achlysur ei fedydd,  
eneiniwyd dy Fab Iesu â'r Ysbryd Glân;  
**rhoddwn iti ddiolch a moliant.**

Trwy rym yr un Ysbryd, sancteiddia'r dŵr hwn,  
fel y bo i'th blant a olchir ynddo  
gael eu huno â Christ yn ei farwolaeth a'i atgyfodiad.  
Glanha hwy, a'u gwared rhag pob pechod;  
dwg hwy i enedigaeth newydd yn nheulu dy Eglwys,  
a gwna hwy'n etifeddion dy deyrnas:  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
a gyfodaist, trwy rym yr Ysbryd,  
i fyw gyda thi am byth.  
**Amen.**

*Neu*

Molwch Dduw, a wnaeth nefoedd a daear,  
**sy'n cadw ei addewid hyd byth.**

Dad nefol, diolchwn i ti  
am dy gariad yn y cread  
ac am y rhodd o ddŵr  
i gynnal a glanhau ac adnewyddu pob creadur byw.

Diolchwn iti am y cyfamod a wnaesthost  
â'th bobl yn y dyddiau a fu;  
tywysaist hwy trwy'r môr o gaethwasiaeth i ryddid.

Diolchwn iti am i'th Fab Iesu  
gael ei fedyddio gan Ioan yn nyfroedd yr Iorddonen,  
a'i encinio â'r Ysbryd Glân.  
Trwy ei farwolaeth ar y groes a'i atgyfodiad,  
daeth â maddeuant inni, a'n rhyddhau.

Diolchwn iti am dy fod yn nyfroedd y bedydd  
yn ein glanhau o bechod,  
yn ein hadnewyddu â'th Ysbryd  
ac yn ein cyfodi i fywyd newydd.

Sancteiddia'r dŵr hwn, fel y bo i'th blant a olchir ynddo  
gael eu gwneud yn un â Christ.  
Er cyflawni d'addewid  
eneinia hwy â'th Ysbryd Glân;  
dwg hwy i enedigaeth newydd yn nheulu dy Eglwys,  
a dyro iddynt ran yn dy deyrnas:  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
a gyfodaist, trwy rym yr Ysbryd,  
i fyw gyda thi am byth.  
**Amen.**

## 5 Y Bedyddio

*Y mae'r gweinidog yn bedyddio pob plentyn, gan ddweud*  
E, yr wyf yn dy fedyddio di yn Enw'r Tad a'r Mab  
a'r Ysbryd Glân.

**Amen.**

*Gall y gweinidog eneinio pob plentyn â chrism ar y corun, gan ddweud*

Bydded i Dduw, a'th dderbyniodd di trwy fedydd i'w Eglwys, dywallt arnat olud ei ras. Megis yr eneinwyd Crist yn offeiriad, yn broffwyd ac yn frenin, cydffurfier di beunydd â'i ddelw ef.

**Amen.**

*Gall y gweinidog neu aelod o'r gynulleidfa wisgo pob plentyn sydd newydd ei fedyddio mewn gwisg wen, gan ddweud*

Gwisgwyd di â Christ a'th gyfodi i fywyd newydd ynddo ef.

## 6 Cyflwyno'r Goleuni

*Os cynhwysir hyn, gellir ei wneud naill ai yn y fan hon neu ynteu yn yn y fan a nodir yn Adran 7 isod.*

*Gall y gweinidog neu aelod o'r gynulleidfa roi kannwyll wedi ei chynnuau i bob un sydd newydd ei fedyddio.*

Derbyniaist oleuni Crist;  
rhodia yn ei oleuni holl ddyddiau dy fywyd.

**Llewyrcha fel goleuni yn y byd  
er gogoniant i Dduw'r Tad.**

# 4

## YTANGNEFEDD

*Gellir darllen brawddeg addas o'r Ysgrythur.*

Tangnefedd yr Arglwydd a fyddo gyda chwi bob amser.  
**A hefyd gyda thi.**

*Gellir cyfnewid arwydd tangnefedd.*

# 5

## CYMUN Y BEDYDD

*Ac eithrio ar yr achlysuron a nodir yn Nodyn Cyffredinol 4, gellir defnyddio un o'r rhaglithiau a ganlyn:*

... A esgynnodd i'w orsedd nefol ar dy ddeheulaw di;  
trwyddo yr wyt yn tywallt  
dy Ysbryd Glân ar dy bobl:  
Ysbryd doethineb a deall,  
Ysbryd cyngor a grym,  
Ysbryd gwybodaeth a gwir dduwioledeb  
ac ofn yr Arglwydd.

... Trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad  
fe'n gwnaeth ni'n blant y goleuni.  
Yn y bedydd yr ydym yn cyfranogi o addewid ei ogoniant,  
ac fe'n llenwir â llawenydd na dderfydd byth.

... Anfonaist ef i fod yn Waredwr y byd,  
ac y mae ef yn ein hanfon ninnau i gyhoeddi'r newyddion da  
a hysbysu ffordd y gwirionedd.

*Ar ôl y Cymun, bydd y gwasanaeth yn diweddu ag Adran 7.*

## 6

## GWEDDIAU

*Oni weinyddir y Cymun Bendigaid, bydd y gwasanaeth yn diweddu gyda Gweddi'r Arglwydd, ynghyd ag un neu ragor o weddiau addas eraill, a dilynr hynny gan y fendith a'r anfon allan yn Adran 7.*

*Naill ai*

Gweddiwn yn hyderus ar y Tad:

Ein Tad yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw,  
deled dy deyrnas,  
gwneled dy ewyllys,  
ar y ddaear fel yn y nef.  
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;  
a maddau inni ein troseddau,  
fel yr ŷm ni wedi maddau  
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;  
a phaid â'n dwyn i brawf,  
ond gwared ni rhag yr Un drwg.

Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas  
a'r gallu a'r gogoniant  
am byth.  
Amen.

*Neu*

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad,  
yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw,  
deled dy deyrnas,  
gwneled dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol  
a maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg.

Canys eiddot ti yw'r deyrnas,  
a'r gallu, a'r gogoniant,  
yn oes oesoedd.  
Amen.

Dduw ffyddlon a chariadus,  
bendithia'r rhai sy'n gofalu am y *plant hyn*  
a dyro iddynt ddoniau cariad, doethineb a ffydd.  
Tywallt arnynt gariad dy iachâd a'th gymod,  
ac amddiffyn eu cartref rhag pob drwg.  
Llanw hwy â goleuni dy bresenoldeb  
a sefydla hwy yn llawenydd dy deyrnas,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**Amen.**

Dad nefol, rhannodd dy Fab gyda'r Fendigaid Forwyn Fair  
a Sant Joseff fywyd cartref daearol yn Nasareth. Tywallt  
dy fendith ar *gartrefi* dy *blant hyn*. Bydded *iddynt* dyfu  
yn dy gariad a dysgu dy wasanaethu a gofalu am y rhai  
sydd mewn angen, gan ddilyn yn ôl traed Iesu Grist, ein  
Harglwydd.

**Amen.**

*Y mae'r gweddïau ôl-gymun yn Adran 7 yn addas i'w defnyddio yn y  
fan hon.*

*Gellir defnyddio un o'r gweddïau ôl-gymun a ganlyn.*

*Naill ai*

Dduw gras a bywyd.  
 yn dy gariad rhoddaist i ni le ymhlith dy bobl:  
 cadw ni'n ffyddlon i'n bedydd,  
 a pharatoa ni at y dydd gogoneddus hwnnw  
 pan berffeithir yr holl greadigaeth  
 yn dy Fab, ein Gwardwr Iesu Grist.  
**Amen.**

*Neu*

**Dragwyddol Dduw,  
 datgenaist yng Nghrist  
 lawnder pwrpas dy gariad:  
 bydded inni fyw trwy ffydd,  
 rhodio mewn gobaith  
 a chael ein hadnewyddu gan dy gariad,  
 nes bod y byd yn adlewyrchu dy ogoniant di,  
 a thithau'n oll yn oll.  
 Boed felly; tyrd, Arglwydd Iesu!  
 Amen.**

*Gellir cyflwyno'r fendith ag un o'r canlynol.*

*Naill ai*

Yn y bedydd fe'n cleddir gyda Christ  
 a'n cyfodi i fywyd newydd ynddo ef.  
 Bydded i chwi oll ddod i adnabod ei lawenydd mewn  
 bywyd o wasanaeth a moliant.  
**Amen.**

Yn y bedydd fe'n hadnewyddir  
 gan ras iachaol yr Ysbryd Glân.  
 Bydded i ffrwyth yr Ysbryd dyfu a chynyddu o'ch mewn.  
**Amen.**

Yn y bedydd fe'n hachubir a'n hiacháu;  
 fe'n hadnewyddir a maddeuir inni.  
 Bydded ichwi gyhoeddi ar air ac esiampl  
 y newyddion da am gariad Duw yng Nghrist.  
**Amen.**

Neu

Bydded i Dduw tangnefedd, a ddygodd yn ôl oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu, Bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfamod tragwyddol, eich cyflawni â phob daioni i wneud ei ewyllys ef, gan lunio ynoch yr hyn sy'n gymeradwy iddo, trwy Iesu Grist, y byddo'r gogoniant iddo byth bythoedd ...

Neu

Bydded i'r Hollalluog Dduw, a roddodd inni'r fuddugoliaeth trwy atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, roi i chwi lawenydd a thangnefedd wrth gredu ...

Neu

Bydded i Dduw'r Tad, y cyfodwyd Crist oddi wrth y meirw trwy ei ogoniant, eich cryfhau i rodio gydag ef yn ei fywyd atgyfodedig ...

[a] bendith Duw Hollalluog,  
y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân  
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

**Amen.**

*Oni wnaed hyn yn y fan a nodwyd yn gynharach yn y gwasanaeth, gall yr esgob neu aelod o'r gynulleidfa yn awr roi kannwyll wedi ei chynnau i bob un sydd newydd ei fedyddio.*

Derbyniaist oleuni Crist;  
rhodia yn ei oleuni holl ddyddiau dy fywyd.

**Llewyrcha fel goleuni yn y byd  
er gogoniant i Dduw'r Tad.**

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.

**Yn enw Crist.**

**Amen.**

*Neu, yn nhymor y Pasg*

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.

Alelwia! Alelwia!

**Yn enw Crist. Alelwia! Alelwia!**

*Gall y gweinidog arwain y rhai sydd newydd eu bedyddio a'u rhieni a'u rhieni bedydd drwy'r eglwys.*

# ATODIADAU

**i**

## **BEDYDDIO PLANT YN BREIFAT MEWN ARGYFWNG**

*Nid yw'r Drefn hon i'w defnyddio ond mewn argyfwng.*

*Dywed y gweinidog a'r rhai sy'n bresennol gynifer o'r gweddïau yn y Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod ag y mae'r argyfwng yn ei ganiatáu. Yna, y mae'r gweinidog yn bedyddio'r plentyn, gan ddweud*

*E, yr wyf yn dy fedyddio yn Enw'r Tad a'r Mab  
a'r Ysbryd Glân.*

**Amen.**

*Yna, dywed pawb sy'n bresennol*

**Ein Tad ...**

**Gras ein Harglwydd Iesu Grist,  
a chariad Duw,  
a chymdeithas yr Ysbryd Glân  
a fyddo gyda ni oll byth bythoedd.  
Amen**

## **Bedydd Gan Berson Lleyg**

*Onid oes gweinidog ordeiniedig ar gael, y mae un o'r rhai sy'n bresennol yn enwi'r plentyn ac yn tywallt dŵr arno/arni deirgwaith, gan ddweud*

*E, yr wyf yn dy fedyddio yn Enw'r Tad a'r Mab a'r  
Ysbryd Glân.*

**Amen.**

*Yna, gall pawb ddweud Gweddi'r Arglwydd a'r Gras.*

*Rhaid i bwy bynnaq a weinyddodd fedydd preifat mewn argyfwng hysbysu offeiriad y plwyf yn ddi-oed.*

*Cofnodir y bedydd yng nghofrestr y bedyddiadau yn y modd arferol.*

*Os bydd y plentyn fyw, dylid dod ag ef/hi i'r eglwys cyn gynted ag y bo'n gyfleus ar ôl y bedydd.*

**CROESAWU I'R EGLWYS FABANOD A FEDYDDIUYD  
YN BREIFAT**

*Cyn defnyddio'r Drefn hon, rhaid i'r gweinidog sicrhau gan bwy, ac yng ngŵydd pwy, y bedyddiwyd y plentyn, a'i fod wedi ei fedyddio â dŵr yn Enw'r Drindod Sanctaidd. Os oes amheuaeth, dylai'r gweinidog weinyddu bedydd amodol. I'r diben hwn defnyddir y Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod, ond yn Adran 3(5) fe newidir geiriau'r gweinyddu i: 'Oni'th fedyddiwyd di eisoes, E, yr wyf yn dy fedyddio yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Amen.'*

*Os yw'r gweinidog yn fodlon fod y plentyn eisoes wedi ei fedyddio, â'r gwasanaeth rhagddo fel a ganlyn.*

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

**Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi  
**a'th gadw di yng nghariad Crist.**

*Neu, yn Nhyrnor y Pasg*

Alelwia! Atgyfododd Crist.

**Atgyfododd yn wir. Alelwia!**

*Gall y gweinidog gyflwyno'r gwasanaeth gydag un o'r canlynol.*

*Naill ai*

Gorchmynnodd ein Harglwydd Iesu Grist, 'Ewch, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.'

**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Trwy fedydd fe'n claddwyd gyda Christ i'w farwolaeth, fel, megis y cyfodwyd Crist oddi wrth y meirw mewn amlygiad o ogoniant y Tad, y byddai i ninnau gael byw ar wastad bywyd newydd.

**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Pan fedyddiwyd Crist yn afon Iorrdonen, disgynnodd yr Ysbryd megis colomen, a llefarodd y Tad, gan ddweud, 'Ti yw fy Mab, yr Anwylyd; ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu.'

**I Dduw y bo'r diolch.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch y rhieni*

Y mae bedyddio ei haelodau newydd yn achlysur o lawenydd mawr i'r Eglwys Gristnogol. Trwy ddŵr a'r Ysbryd fe'n hailenir yn blant Duw, a'n gwneud yn ddilynwyr Crist, yn aelodau o'i gorff ef, yr Eglwys, ac yn etifeddion teyrnas nefoedd.

Eich cyfrifoldeb chwi yw ei magu *E* yn Gristion. Wrth ofalu *amdano/i*, a wnewch chwi ei *g/chynorthwyo* i gadw gorchmynion Duw trwy garu Duw a chymydog fel y dysgodd Crist ni? A wnewch chwi weddio *drosto/i*, a'i *dd/denu*, drwy eich esiampl eich hun, i gymdeithas y ffydd?

**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch y rhieni bedydd*

A wnewch chwi gefnogi rhieni *E* a'u cynorthwyo i wneud y pethau hyn?

**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch yr holl gynulleidfa*

A wnewch chwi groesawu *E* a gwneud eich gorau i'w *g/chynnal* yn ei *f/bywyd* yng Nghrist?

**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.**

*Ac eithrio ar yr achlysuron a nodir yn Nodyn Cyffredinol 4, defnyddir y Colect a ganlyn*

Dad nefol,

trwy rym dy Ysbryd Glân

yr wyt yn rhoddi i'th bobl ffyddlon

fywyd newydd yn nŵr y bedydd:

cyfarwydda a chyfnertha ni trwy'r un Ysbryd,

fel y bo i ni a ailenir dy wasanaethu mewn ffydd a chariad

a thyfu i lawn faintioli dy Fab Iesu Grist,

sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,

yn un Duw, yn awr a byth.

**Amen.**

*Yna defnyddir Adrannau 2–3(3) yn y Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod.*

*Yn Adran 3(1), disodlir anerchiad agoriadol yr offeiriad i'r rhieni a'r rhieni bedydd gan y canlynol*

Trwy fedydd, y mae Duw eisoes wedi derbyn *E* yn blentyn iddo'i hun. Yr ydym, felly, yn eich gwahodd yn awr i ymateb i alwad Crist.

*Yn Adran 3(2), wrth wneud arwydd y groes ar dalcen y plentyn, dywed y gweinidog*

*E*, yr wyf yn dy nodi ag arwydd y groes, i ddangos dy fod, trwy fedydd, yn eiddo ein Gwaredwr, Iesu Grist.

*Yn union wedi Adran 3(3), gall y gweinidog eneinio'r plentyn â chrym ar y corun, gan ddweud*

Bydded i Dduw, a'th dderbyniodd di trwy fedydd i'w Eglwys, dywallt arnat olud ei ras. Megis yr eneinwyd Crist yn offeiriad, yn broffwyd ac yn frenin, cydffurfier di beunydd â'i ddelw ef.

**Amen.**

*Gall y gweinidog neu aelod o'r gynulleidfa wisgo pob plentyn sydd newydd ei fedyddio mewn gwisg wen, gan ddweud*

Gwisgwyd di â Christ a'th gyfodi i fywyd newydd ynddo ef.

*Gellir defnyddio Adran 3(6) yn y Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod.*

*Daw'r gwasanaeth i ben gydag Adrannau 4–7 yn y Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod.*

*Yn y Cymun Bendigaid, gellir defnyddio'r gwasanaeth byr ac anorfodol hwn o groeso o flaen Credo Nicea. Yn y Foreol neu'r Hwyl Weddi, gall gymryd lle'r Ymbiliau. Os defnyddir y weddi a ganlyn o ddiolch ym Medydd Cyhoeddus Babanod, dylid ei chynnwys yn syth ar ôl y Cyfarchiad yn Adran 1.*

*Gellir dweud y weddi hon.*

Heddiw, diolchwn i Dduw hollalluog, gyda *E ac E*, am eu *plant, E ac E*.

Dduw grasol, creawdwr a chynhaliwr bywyd meidrol,  
y mae dy eglwys yn diolch gyda *E ac E*  
am iti roddi *E ac E*  
a'u hymddiried i'w *gofal*;  
bydded *iddynt* ddangos amynedd a dealltwriaeth,  
a bod bob amser yn barod i gyfarwyddo ac i faddau,  
fel, yn *eu* cariad *hwy*, y daw *E ac E* i adnabod dy gariad di,  
a dysgu dy garu â'u holl galon  
a'u cymydog fel *hwy* eu hun,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**Amen.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch y gynulleidfa*

Y mae *E ac E* yn paratoi at fedydd eu *plant E ac E*. Y mae bedydd yn arwydd o fywyd newydd yng Nghrist. Yr ydym i gyd yn rhannu'r cyfrifoldeb am annog y *plant hyn* yn y bywyd newydd y mae Iesu Grist yn ei gynnig i bawb. A wnewch chwi, felly, groesawu'r *plant hyn a'u teuluoedd*, a'u cynnal gyda'ch gweddiâu a'ch cymdeithas?

**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch y rhieni*

*E ac E*, yr ydym yn eich croesawu chwi a'ch *plant* mewn llawenydd, gan weddio y bydd i Dduw eich bendithio a'ch cyfarwyddo bob amser.

A wnewch chwi gynorthwyo eich *plant* i dyfu yng ngwybodaeth a chariad Duw ac i gymryd *eu lle* ym mywyd ac addoliad yr Eglwys?

**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.**

*[Y mae'r gweinidog yn annerch y rhieni bedydd*

A wnewch chwi gynorthwyo *E ac E* i feithrin *eu plant* fel y *cynyddant* mewn ffydd?

**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.]**

*Dywed y gweinidog*

Dragwyddol a chariadus Dduw,  
addewaist y bydd i'r rhai sy'n dy geisio dy gael.  
Gweddiwn am dy fendith ar y *teuluoedd hyn*  
wrth iddynt baratoi at fedydd *E ac E*:  
cyfarwydda hwy â'th ddoethineb  
a dyfnha eu gwybodaeth o'th Fab a'u cariad ato ef,  
ein Gwaredwr Iesu Grist.

**Amen.**

*Dylid cynnwys gweddiau addas yn yr Ymbiliau, er enghraifft*

Edrych yn gariadus ar y *plant hyn, eu rhieni a'u rhieni*  
bedydd.

Gwna hwy'n ddilynwyr ffyddlon i Grist, ac arwain hwy i  
lawenydd dy deyrnas.

Ysbrydola'r rhieni [a'r rhieni bedydd] hyn i fod yn  
esiemplau byw o ffydd i'w *plant*.

Adnewyddda ras y bedydd ym mhob un ohonom.

**iv**

***DATHLU AR ÔL GWASANAETH BEDYDD A/NEU  
GONFFYRMASIWN Y TU ALLAN I'R PLWYF***

*Gweler Trefn ar gyfer Bedydd gyda Chonffyrmasiwn [Bedydd  
Esgob], Atodiad vi.*

TREFN AR GYFER BEDYDD  
GYDA CHONFFYRMASIWN  
(BEDYDD ESGOB)



## NODIADAU

*Dylid darllen y Nodiadau hyn ar y cyd â'r Nodiadau Cyffredinol ar dudalen 8.*

- 1 Fel rheol, cynhelir Bedydd gyda Chonffyrmasiwn [Bedydd Esgob] yng nghyd-destun y Cymun Bendigaid. Yn Adran 6 darperir ar gyfer achlysuron pan na weinyddir y Cymun.
- 2 Pan gonffyrmir oedolion sydd eisoes wedi eu bedyddio, hepgorir Adrannau 3(2) a 3(4)–(6).
- 3 Pan fo plant i'w bedyddio, ond nid i'w conffirmio, dylid defnyddio'r *Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod*.

Y mae yn y Drefn hon ddarpariaeth i alluogi plant nad ydynt yn ddigon hen i ateb drostynt eu hunain i gael eu bedyddio yr un pryd â'u rhieni neu oedolion eraill sy'n aelodau o'r teulu.

Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid cynnwys y pum cwestiwn i'r rhieni a'r rhieni bedydd sydd yn Adran 1 y *Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod* yn Adran 1 y Drefn hon, rhwng cwestiwn yr esgob i'r rhai sydd i'w conffirmio a chwestiwn yr esgob i'r gynulleidfa.

Atebir pob cwestiwn ar ran y plant gan eu rhieni a'u rhieini bedydd, ac y mae'n addas bedyddio'r plant yn union ar ôl bedyddio aelodau o'r teulu sy'n oedolion.

- 4 Dylai'r esgob a'r offeiriad plwyf ymgynghori â'i gilydd ynglŷn ag union drefn y gwasanaeth.  
Yn Adran 3(2), gall yr esgob wahodd cefnogwyr yr ymgeiswyr (ac, yn achos plant bach, eu rhieni a'u rhieni bedydd) i gymryd rhan yn y Nodi â'r Groes.  
Yn Adran 3(3), gall ymgeiswyr gyffesu'r ffydd Drindodaidd drwy adrodd Credo'r Aposolion. Os felly, hepgorir tri chwestiwn yr esgob. Ar ôl i'r ymgeiswyr adrodd y Credo, dylai'r esgob fynd rhagddo â'r geiriau 'Dyma ffydd yr Eglwys', a bydd y gynulleidfa yn ymateb yn y dull a nodir.

Gall yr esgob ddirprwyo'r weithred o fedyddio i weinidog cyfreithlon arall.

- 5 Os defnyddir olewau sanctaidd, gellir eneinio'r ymgeiswyr am fedydd gyda'r olew olewydden pur a adwaenir fel olew disgyblion bedydd naill ai ar derfyn Adran 3(1) neu ynteu wrth nodi â'r groes yn Adran 3(2), a gellir defnyddio crism naill ai fel y nodir ar derfyn Adran 3(5) neu ynteu yn Adran 3(7) ar y cyd â'r weddi 'Cyfnertha, Arglwydd, dy was'. Ni ddylid eneinio â chrism ar derfyn Adran 3(5) yr ymgeiswyr hynny sy'n derbyn bedydd a chonffyrmasiwn.

# TREFN AR GYFER BEDYDD GYDA CHONFFYRMASIWN (BEDYDD ESGOB)

## **I** Y DOD YNGHYD

Yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.  
**Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi  
**a'th gadw di yng nghariad Crist.**

*Neu, yn Nhyrnor y Pasg*  
Alelwia! Atgyfododd Crist.  
**Atgyfododd yn wir. Alelwia!**

*Gall yr esgob gyflwyno'r gwasanaeth gydag un o'r canlynol.*

*Naill ai*

Gorchmynnodd ein Harglwydd Iesu Grist, 'Ewch, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.'  
**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Trwy fedydd fe'n claddwyd gyda Christ i'w farwolaeth, fel, megis y cyfodwyd Crist oddi wrth y meirw mewn amlygiad o ogoniant y Tad, y byddai i ninnau gael byw ar wastad bywyd newydd.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Pan fedyddiwyd Crist yn afon Iorddonen, disgynnodd yr Ysbryd megis colomen, a llefarodd y Tad, gan ddweud, 'Ti yw fy Mab, yr Anwylyd; ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu.'  
**I Dduw y bo'r diolch.**

*Saif yr ymgeiswyr a'u cefnogwyr o flaen yr esgob. Gall y sawl a benodwyd enwi'r ymgeiswyr.*

Barchedig Dad yn Nuw, cyflwynaf y rhai hyn iti i'w bedyddio a'u conffyrmio.

*Gofynna'r esgob i'r ymgeiswyr am fedydd a chonffyrmasiwn*  
A ydych yn dymuno cael eich bedyddio a'ch conffyrmio?  
**Ydym.**

*Gofynna'r esgob i'r ymgeiswyr am gonffyrmasiwn*  
A ydych yn dymuno cael eich conffyrmio?  
**Ydym.**

*Gofynna'r esgob i'r gynulleidfa*  
A wnewch chwi groesawu'r ymgeiswyr hyn am fedydd a chonffyrmasiwn a gwneud eich gorau i'w cynnal yn eu bywyd yng Nghrist?  
**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.**

*Y mae'r esgob yn annerch y gynulleidfa gyda'r geiriau hyn, neu eiriau tebyg:*

Yn y sacrament o fedydd y mae ein Tad nefol yn rhyddhau ei bobl o allu pechod a marwolaeth trwy ein huno ni ym marwolaeth ac atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist. Trwy ddŵr a'r Ysbryd Glân fe'n hailenir ni yn blant Duw ac yn etifeddiion teyrnas nefoedd. Y mae pawb a fedyddiwyd yng Nghrist yn aelodau o'r Eglwys, Corff Crist, lle y tyfwn mewn gras a chynyddu beunydd mewn ffydd a chariad ac mewn ufudd-dod i ewyllys Duw.

*Ac eithrio ar yr achlysuron a nodir yn Nodyn Cyffredinol 4, defnyddir y Colect a ganlyn*

Dad nefol,  
trwy rym dy Ysbryd Glân  
yr wyt yn rhoddi i'th bobl ffyddlon  
fywyd newydd yn nŵr y bedydd:  
cyfarwydda a chyfnertha ni trwy'r un Ysbryd,  
fel y bo i ni a ailenir dy wasanaethu mewn ffydd a chariad  
a thyfu i lawn faintioli dy Fab Iesu Grist,  
sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr a byth.  
**Amen.**

## 2 CYHOEDDI'R GAIR

*Ac eithrio ar yr achlysuron a nodir yn Nodyn Cyffredinol 4, gellir dewis darlenniadau addas o blith y rhai a restrir isod.*

### **Darlenniad o'r Hen Destament**

<i>Genesis 7.17-23</i>	<i>Y Dilyw</i>
<i>Exodus 14.19-31</i>	<i>Croesi'r Môr Coch</i>
<i>Exodus 20.1-17</i>	<i>Y Deg Gorchymyn</i>
<i>Deuteronomium 30.15-20</i>	<i>Dewis rhwng dwy ffordd</i>
<i>2 Brenhinoedd 5.1-15a</i>	<i>Iacháu Naaman</i>
<i>Eseia 44.1-5</i>	<i>Yr addewid i was Duw</i>
<i>Eseia 55.1-11</i>	<i>Gwahodd y sychedig</i>
<i>Jeremeia 31.31-34</i>	<i>Y cyfamod newydd</i>
<i>Eseciel 36.25-28</i>	<i>Calon newydd, ysbryd newydd</i>
<i>Eseciel 37.1-10</i>	<i>Dyffryn yr esgyrn sychion</i>

*Wedyn gall y darlennydd ddweud*

*Naill ai*

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd  
yn ei ddweud wrth yr eglwys.

**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Dyma air yr Arglwydd.

**I Dduw y bo'r diolch.**

### **Darlenniad o'r Testament Newydd**

<i>Actau 8.14-17</i>	<i>Bedydd a dawn yr Ysbryd</i>
<i>Actau 16.25-34</i>	<i>Ceidwad y carchar yn Philipi</i>
<i>Rhufeiniaid 6.3-11</i>	<i>Marw a chyfodi yng Nghrist</i>
<i>Rhufeiniaid 8.11-17</i>	<i>Ysbryd mabolaeth</i>
<i>1 Corinthiaid 12.4-13</i>	<i>Llawer o ddoniau, un Ysbryd</i>
<i>1 Corinthiaid 12.12-13</i>	<i>Un corff yng Nghrist</i>
<i>Galatiaid 4.3-7</i>	<i>Abba, Dad</i>
<i>Galatiaid 5.16-25</i>	<i>Cnawd ac Ysbryd</i>
<i>1 Pedr 2.4-10</i>	<i>Pobl Dduw</i>

*Wedyn gall y darlennydd ddweud*

*Naill ai*

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd  
yn ei ddweud wrth yr eglwys.

**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Dyma air yr Arglwydd.

**I Dduw y bo'r diolch.**

## Yr Efengyl

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant ...  
**Gogoniant i ti, O Arglwydd.**

*Mathew 5.1-12*

*Mathew 16.24-27*

*Mathew 28.16-20*

*Marc 1.1-11*

*Marc 1.14-20*

*Luc 24.45-diwedd*

*Ioan 3.1-8*

*Ioan 15.1-11*

*Y Gwynfydau*

*Disgyblion Crist*

*Y comisiwn olaf*

*Bedydd Iesu*

*Y disgyblion cyntaf*

*Tystion*

*Nicodemus*

*Y wir winwydden*

Dyma Efengyl yr Arglwydd.  
**Moliant i ti, O Grist.**

## Y Bregeth

*Ni ddywedir y Gyffes Ffydd yma.*

# 3 LITWRGI BEDYDD A CHONFFYRMASIWN [BEDYDD ESGOB]

## 1 Y Penderfyniad

*Y mae'r esgob yn annerch yr ymgeiswyr a'u cefnogwyr*

*Yr ydych wedi datgan eich bod yn dymuno cael eich bedyddio a'ch confffyrmio (a'ch bod yn dymuno i'r plant hyn/y plentyn hwn gael eu bedyddio/ei fedyddio). Gwahodddwn chwi yn awr, felly, i ymateb i alwad Crist.*

*A ydych yn troi at Grist?*

**Yr wyf yn troi at Grist.**

*A ydych yn edifarhau am eich pechodau?*

**Yr wyf yn edifarhau am fy mhechodau.**

*A ydych yn ymwrthod â'r drwg?*

**Yr wyf yn ymwrthod â'r drwg.**

*Dywed yr esgob wrth y rhai sydd i'w bedyddio*

*Bydded i Dduw, a'ch galwodd chwi allan o dywyllwch i oleuni, eich adfer ar ddelw ei ogoniant a'ch tywys yn ffordd Crist.*

**Amen.**

*Os defnyddir olew disgyblion bedydd, gellir eneinio'r ymgeiswyr am fedydd ag ef naill ai yn y fan hon neu ynteu wrth eu nodi â'r groes.*

## 2 Y Nodi â'r Groes

*Â'r esgob rhagddo*

Trwy ei groes a'i werthfawr waed, fe brynodd ein Harglwydd Iesu Grist y byd. Dywedodd wrthym, os oes neb am fod yn ddilynwyr iddo ef, fod yn rhaid iddynt ymwadu â hwy eu hunain, codi eu croes, a'i ganlyn ef ddydd ar ôl dydd.

*Gwneir arwydd y groes ar dalcen pob un sydd i'w fedyddio.*

*E, yr wyf yn dy nodi ag arwydd y groes ac yn dy hawlio di i'n Hiachawdwr Iesu Grist.*

*Ar ôl i bob ymgeisydd gael ei nodi ag arwydd y groes, â'r esgob rhagddo*

*Na fydded arnoch / arnat gywilydd byth  
i gyffesu ffydd y Crist croeshoeliedig.*

*Pawb*

**Ymladdwch yn wrol yn erbyn pechod, y byd a'r diafol,  
a byddwch ffyddlon i Grist tra byddi/byddwch byw.  
Amen.**

## 3 Cyffesu'r Ffydd

*Wrth y fedyddfan, y mae'r esgob yn annerch yr ymgeiswyr  
a'u cefnogwyr*

*Fe'ch gwahoddwn yn awr i gyffesu'r ffydd Gristnogol.*

*A ydych yn credu yn Nuw Dad, Creawdwr pob peth?*

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad.**

*A ydych yn credu yn ei Fab Iesu Grist, Gwarddwr y byd?*

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Fab.**

*A ydych yn credu yn yr Ysbryd Glân, Rhoddwr bywyd?*

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw'r Ysbryd Glân.**

*Y mae'r esgob yn annerch y gynulleidfa*

*Dyma ffydd yr Eglwys.*

**Dyma ein ffydd ni.**

**Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,**

**Tad, Mab ac Ysbryd Glân.**

#### 4 *Bendithio Dŵr y Bedydd*

*Defnyddia'r esgob un o'r ffurfiau a ganlyn.*

*Naill ai*

Diolchwn i ti, O Dduw:

**bendithiwn dy enw sanctaidd.**

Am dy rodd o ddŵr, i feithrin a chynnal pob bywyd,  
**rhoddwn iti ddiolch a moliant.**

Trwy ddyfroedd y môr  
arweiniaist blant Israel o gaethwasiaeth i ryddid;  
**rhoddwn iti ddiolch a moliant.**

Ar achlysur ei fedydd,  
eneiniwyd dy Fab Iesu â'r Ysbryd Glân;  
**rhoddwn iti ddiolch a moliant.**

Trwy rym yr un Ysbryd, sancteiddia'r dŵr hwn,  
fel y bo i'th blant a olchir ynddo  
gael eu huno â Christ yn ei farwolaeth a'i atgyfodiad.  
Glanha hwy, a'u gwared rhag pob pechod;  
dwg hwy i enedigaeth newydd yn nheulu dy Eglwys,  
a gwna hwy'n etifeddion dy deyrnas:  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
a gyfodaist, trwy rym yr Ysbryd,  
i fyw gyda thi am byth.  
**Amen.**

*Neu*

Molwch Dduw, a wnaeth nefoedd a daear,  
**sy'n cadw ei addewid hyd byth.**

Dad nefol, diolchwn i ti  
am dy gariad yn y cread  
ac am y rhodd o ddŵr  
i gynnal a glanhau ac adnewyddu pob creadur byw.

Diolchwn iti am y cyfamod a wnaethost  
â'th bobl yn y dyddiau a fu;  
tywysaist hwy trwy'r môr o gaethwasiaeth i ryddid.

Diolchwn iti am i'th Fab Iesu  
gael ei fedyddio gan Ioan yn nyfroedd yr Iorrdonen,  
a'i eneinio â'r Ysbryd Glân.

Trwy ei farwolaeth ar y groes a'i atgyfodiad,  
daeth â maddeuant inni, a'n rhyddhau.

Diolchwn iti am dy fod yn nyfroedd y bedydd  
yn ein glanhau o bechod,  
yn ein hadnewyddu â'th Ysbryd  
ac yn ein cyfodi i fywyd newydd.

Sancteiddia'r dŵr hwn, fel y bo i'th blant a olchir ynddo  
gael eu gwneud yn un â Christ.  
Er cyflawni d'addewid  
eneinia hwy â'th Ysbryd Glân;  
dwg hwy i enedigaeth newydd yn rheulu dy Eglwys,  
a dyro iddynt ran yn dy deyrnas:  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
a gyfodaist, trwy rym yr Ysbryd,  
i fyw gyda thi am byth.  
**Amen.**

## 5 Y Bedyddio

*Y mae'r esgob yn bedyddio pob ymgeisydd, gan ddweud*  
E, yr wyf yn dy fedyddio di yn Enw'r Tad a'r Mab a'r  
Ysbryd Glân.  
**Amen.**

*Gall yr esgob eneinio gyda chrisem ar y corun unrhyw blant bach a  
fedyddiwyd, ond nad ydynt i'w conffyrmio, gan ddweud*  
Bydded i Dduw, a'th dderbyniodd di trwy fedydd i'w  
Eglwys, dywallt arnat olud ei ras. Megis yr eneiniiwyd  
Crist yn offeiriad, yn broffwyd ac yn frenin, cydffurfier di  
beunydd â'i ddelw ef.  
**Amen.**

*Gall yr esgob neu aelod o'r gynulleidfa wisgo pob un sydd newydd ei  
fedyddio mewn gwisg wen, gan ddweud*  
Gwisgwyd di â Christ a'th gyfodi i fywyd newydd  
ynddo ef.

## 6 Cyflwyno'r Goleuni

*Os cynhwysir hyn, gellir ei wneud naill ai yn y fan hon neu ynteu yn yn y fan a nodir yn Adran 7 isod.*

*Gall yr esgob neu aelod o'r gynulleidfa roi cannwyll wedi ei chynnau i bob un sydd newydd ei fedyddio.*

Derbyniaist oleuni Crist;  
rhodia yn ei oleuni holl ddyddiau dy fywyd.

**Llewyrcha fel goleuni yn y byd  
er gogoniant i Dduw'r Tad.**

## 7 Y Conffyrmio

*Y mae'r esgob yn sefyll ac yn estyn ei ddwylo tuag at yr ymgeiswyr sydd i'w conffyrmio, ac yn dweud*

Hollalluog a thragwyddol Dduw,  
rhoddaist i'th *weision* enedigaeth newydd  
mewn bedydd o ddŵr a'r Ysbryd Glân,  
a maddeuaist *iddynt eu* holl bechodau.  
Tywallt dy Ysbryd Glân *arnynt*:  
Ysbryd doethineb a deall;  
Ysbryd cyngor a nerth oddi mewn;  
Ysbryd gwybodaeth a gwir dduwioldeb;  
a bydded *eu* hyfrydwch yn ofn yr Arglwydd.

**Amen.**

*Y mae'r esgob yn annerch pob ymgeisydd wrth ei enw*

*E, y mae Duw wedi dy alw a'i wneud yn eiddo iddo'i hun.*

*Rhydd yr esgob ei law ar ben pob ymgeisydd, gan ddweud*

*Naill ai*

Cyfnërtha, Arglwydd,  
dy *was/wasanaethferch/blentyn E* â'th ras nefol.  
ac eneinia *ef/hi* â'th ras;  
galluoga *ef/hi* at dy wasanaeth  
a'i *g/chadw* yn y bywyd tragwyddol.

**Amen.**

*Neu*

Cyfnërtha, Arglwydd, dy *was/wasanaethferch E* â'th ras nefol,  
er mwyn *iddo/iddi* barhau'n eiddo i ti byth,  
a chynyddu beunydd yn dy Ysbryd Glân fwyfwy,  
nes *iddo/iddi* ddod i'th deyrnas nefol.

**Amen.**

# 4

## Y TANGNEFEDD

*Gellir darllen brawddeg addas o'r Ysgrythur.*

Tangnefedd yr Arglwydd a fyddo gyda chwi bob amser.  
**A hefyd gyda thi.**

*Gellir cyfnewid arwydd tangnefedd.*

# 5

## CYMUN Y BEDYDD

*Ac eithrio ar yr achlysuron a nodir yn Nodyn Cyffredinol 4, gellir defnyddio un o'r rhaglithiau a ganlyn:*

... A esgynnodd i'w orsedd nefol ar dy ddeheulaw di;  
trwyddo yr wyt yn tywallt  
dy Ysbryd Glân ar dy bobl:  
Ysbryd doethineb a deall,  
Ysbryd cyngor a grym,  
Ysbryd gwybodaeth a gwir dduwioledeb  
ac ofn yr Arglwydd.

... Trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad  
fe'n gwnaeth ni'n blant y goleuni.  
Yn y bedydd yr ydym yn cyfranogi o addewid ei ogoniant,  
ac fe'n llenwir â llawenydd na dderfydd byth.

... Anfonaist ef i fod yn Waredwr y byd,  
ac y mae ef yn ein hanfon ninnau i gyhoeddi'r newyddion da  
a hysbysu ffordd y gwirionedd.

*Dylai'r rhai sydd newydd eu confffirmio dderbyn y Cymun Bendigaid  
o flaen aelodau eraill y gynulleidfa.*

*Ar ôl y Cymun, bydd y gwasanaeth yn diweddu ag Adran 7.*

## 6

## GWEDDÏAU PAN NA FO CYMUN BEDYDD

*Oni weinyddir y Cymun Bendigaid, bydd y gwasanaeth yn diweddu gyda Gweddi'r Arglwydd, ynghyd ag un neu ragor o weddïau addas eraill, a dilynir hynny gan y fendith a'r anfon allan yn Adran 7.*

*Naill ai*

Gweddiwn yn hyderus ar y Tad:

Ein Tad yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw,  
deled dy deyrnas,  
gwneler dy ewyllys,  
ar y ddaear fel yn y nef.  
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;  
a maddau inni ein troseddau,  
fel yr ŷm ni wedi maddau  
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;  
a phaid â'n dwyn i brawf,  
ond gwared ni rhag yr Un drwg.

Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas  
a'r gallu a'r gogoniant  
am byth.  
Amen.

*Neu*

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad,  
yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw,  
deled dy deyrnas,  
gwneler dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol  
a maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg.

Canys eiddot ti yw'r deyrnas,  
a'r gallu, a'r gogoniant,  
yn oes oesoedd.  
Amen.

Hollalluog a thragwyddol Dduw,  
bydded dy law dadol dros dy blant hyn;  
bydded dy Ysbryd Glân gyda hwy bob amser;  
cyfnertha hwy'n barhaus â Chorff a Gwaed dy Fab;  
ac felly arwain

hwy i wybodaeth o'th Air ac ufudd-dod iddo,  
fel y bydd iddynt dy wasanaethu di yn y bywyd hwn  
a byw gyda thi byth yn y bywyd sydd i ddod;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**Amen.**

*Y mae'r gweddïau ôl-gymun yn Adran 7 yn addas i'w defnyddio yn y fan hon.*

*Os bedyddiwyd plant bach, gellir ychwanegu gweddïau addas eraill o'r Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod.*

*Gellir defnyddio un o'r gweddïau ôl-gymun a ganlyn.*

*Naill ai*

Hollalluog Dduw, diolchwn i ti  
am ein cymdeithas yn nheulu'r ffydd  
â phawb a fedyddiwyd yn dy enw:  
cadw ni'n ffyddlon i'n bedydd,  
a pharatoa ni at y dydd hwnnw  
pan berffeithir yr holl greadigaeth  
yn dy Fab, ein Gwardwr Iesu Grist.

**Amen.**

*Neu*

**Dragwyddol Dduw,  
datgenaist yng Nghrist  
lawnder pwrpas dy gariad:  
bydded inni fyw trwy ffydd,  
rhodio mewn gobaith  
a chael ein hadnewyddu gan dy gariad,  
nes bod y byd yn adlewyrchu dy ogoniant di,  
a thithau'n oll yn oll.**

**Boed felly; tyrd, Arglwydd Iesu!**

**Amen.**

*Gellir cyflwyno'r fendith ag un o'r canlynol.*

*Naill ai*

Yn y bedydd fe'n cleddir gyda Christ  
a'n cyfodi i fywyd newydd ynddo ef.  
Bydded i chwi oll ddod i adnabod ei lawenydd mewn  
bywyd o wasanaeth a moliant.

**Amen.**

Yn y bedydd fe'n hadnewyddir  
gan ras iachaol yr Ysbryd Glân.  
Bydded i ffrwyth yr Ysbryd dyfu a chynyddu o'ch mewn.

**Amen.**

Yn y bedydd fe'n hachubir a'n hiacháu;  
fe'n hadnewyddir a maddeuir inni.  
Bydded ichwi gyhoeddi ar air ac esiampl  
y newyddion da am gariad Duw yng Nghrist.

**Amen.**

Neu

Bydded i Dduw tangnefedd, a ddygodd yn ôl oddi wrth  
y meirw ein Harglwydd Iesu, Bugail mawr y defaid,  
trwy waed y cyfamod tragwyddol, eich cyflawni â phob  
daioni i wneud ei ewyllys ef, gan lunio ynoch yr hyn sy'n  
gymeradwy iddo, trwy Iesu Grist, y byddo'r gogoniant  
iddo byth bythoedd ...

Neu

Bydded i'r Hollalluog Dduw, a roddodd inni'r  
fuddugoliaeth trwy atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist,  
roi i chwi lawenydd a thangnefedd wrth gredu ...

Neu

Bydded i Dduw'r Tad, y cyfodwyd Crist oddi wrth y  
meirw trwy ei ogoniant, eich cryfhau i rodio gydag ef yn  
ei fywyd atgyfodedig ...

[a] bendith Duw Hollalluog,  
y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân  
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.  
**Amen.**

*Oni wnaed hyn yn y fan a nodwyd yn gynharach yn y gwasanaeth,  
gall yr esgob neu aelod o'r gynulleidfa yn awr roi kannwyll wedi ei  
chynnau i bob un sydd newydd ei fedyddio.*

Derbyniaist oleuni Crist;  
rhodia yn ei oleuni holl ddyddiau dy fywyd.  
**Llewyrcha fel goleuni yn y byd  
er gogoniant i Dduw'r Tad.**

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.  
**Yn enw Crist. Amen.**

*Neu, yn nhymor y Pasg*

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.  
Alelwia! Alelwia!  
**Yn enw Crist. Alelwia! Alelwia!**

*Gall yr esgob arwain y rhai sydd newydd eu bedyddio a'u conffyrmio  
drwy'r eglwys.*

# ATODIADAU

**i**

## BEDYDDIO MEWN ARGYFWNG

*Mewn argyfwng, onid oes gweinidog ordeiniedig ar gael, gall person lleyg weinyddu bedydd.*

*Cyn bedyddio, dylai'r gweinidog ofyn am enw'r person sydd i'w fedyddio. Os oes amheuaeth, am ba reswm bynnag, ynglŷn â'r enw, gellir gweinyddu'r bedydd heb enw (ar yr amod y gellir cofnodi'n gywir pwy yn union a fedyddiwyd).*

*Y mae'r ffurf a ganlyn yn ddigonol.*

*Y mae'r gweinidog yn tywallt dŵr ar y sawl sydd i'w fedyddio, gan ddweud*  
Yr wyf yn dy fedyddio di yn Enw'r Tad a'r Mab  
a'r Ysbryd Glân.  
**Amen.**

*Yna gall pawb ddweud Gweddi'r Arglwydd a'r Gras.*

*Rhaid i bwy bynnag a weinyddodd fedydd preifat mewn argyfwng hysbysu offeiriad y plwyf yn ddi-oed.*

*Cofnodir y bedydd yng nghofrestr y bedyddiadau yn y modd arferol.*

*Os bydd byw y sawl a fedyddiwyd yn y dull hwn, dylai ef/hi ddod, neu gael ei dd/dwyn, i'r eglwys. Dylid defnyddio Adrannau 1, 2, 3(1)–(3) a 4–7 yn y Drefn ar gyfer Bedydd gyda Chonffyrmasiwn [Bedydd Esgob], ond gyda'r newidiadau a ganlyn.*

*Yn Adran 1, dywed y gweinidog wrth y gynulleidfa*

Yr ydym yn croesawu E, a fedyddiwyd ac sy'n dod yn awr i gymryd ei le/lle yng nghwmni pobl Dduw. A wnewch chwi eich gorau i'w g/chynnal yn ei f/bywyd yng Nghrist?  
**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.**

*Yn syth ar ôl Adran 3(3), gellir defnyddio'r weddi o Adran 3(5), sy'n dechrau 'Bydded i Dduw, a'th dderbyniodd di trwy fedydd ...', a gellir eneinio'r sawl a fedyddiwyd â chrisem ar y corun. Gellir hefyd roi gwisg wen amdano/i, gan ddweud y geiriau yn Adran 3(5) sy'n cyd-fynd â'r weithred honno.*

*Gellir hefyd ddefnyddio Adran 3(6).*

*Wedi eu paratoi'n gymwys, dylid dod â phawb a fedyddiwyd yn y dull hwn at yr esgob i'w conffyrmio.*

**DERBYN A CHROESAWU YMGEISWYR  
AR GYFER BEDYDD A CHONFFYRMASIWN**

*Nid yw'r weithred hon o dderbyn a chroesawu yn orfodol. Os defnyddir hi, dylai ddiwydd yn ystod gweithred o addoliad cyhoeddus, yn ddelfrydol yn ystod y Cymun Bendigaid ar y Sul. Yn y Cymun Bendigaid, daw o flaen Credo Nicea. Yn y Foreol neu'r Hwyrrol Weddi, gall gymryd lle'r ymbiliau.*

*Y mae'r gweinidog yn annerch y rhai sydd i'w bedyddio a'u conffyrmio*

Beth yr ydych yn ei ofyn gan Eglwys Dduw?

**Yr wyf yn gofyn am gael fy medyddio a'm conffyrmio.**

Pam yr ydych yn gofyn am gael eich bedyddio a'ch conffyrmio?

**Am fod arnaf eisiau bod yn ddisgybl i Iesu Grist.**

Pam fod arnoch eisiau bod yn ddisgybl i Iesu Grist?

**Am fod Iesu Grist yn Arglwydd.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch cefnogwyr yr ymgeiswyr*

Y mae'r ymgeiswyr hyn wedi gofyn am gael eu bedyddio a'u conffyrmio. A ydych chi yn barod i wneud eich rhan i'w paratoi, trwy weddi ac anogaeth ac esiampl dda?

**Ydym.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch y gynulleidfa*

Y mae'r ymgeiswyr hyn yn awr yn cychwyn / wedi cychwyn ar eu ffordd i'w bedyddio a'u conffyrmio. Bydd arnynt angen cefnogaeth ein gweddiau a'n cariad. A wnewch chi roi y gefnogaeth honno iddynt?

**Gwnawn.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch y rhai sydd i'w conffyrmio*

Beth yr ydych yn ei ofyn gan Eglwys Dduw?

**Yr wyf yn gofyn am gael fy nghonffyrmio.**

Pam yr ydych yn gofyn am gael eich conffyrmio?

**Er mwyn imi gael fy nghyfnertu gan yr Ysbryd Glân.**

Pam yr ydych yn ceisio'r nerth hwnnw?

**I'm cynorthwyo i fod yn ddisgybl ffyddlon i Iesu.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch cefnogwyr yr ymgeiswyr*

Y mae'r ymgeiswyr hyn wedi gofyn am gael eu conffyrmio. A ydych chi yn barod i wneud eich rhan i'w paratoi, trwy weddi ac anogaeth ac esiampl dda?

**Ydym.**

*Y mae'r gweinidog yn annerch y gynulleidfa*

Y mae'r ymgeiswyr hyn yn awr yn cychwyn /wedi cychwyn ar eu ffordd i'w conffyrmio. Bydd arnynt angen cefnogaeth ein gweddïau a'n cariad. A wnewch chwi roi y gefnogaeth honno iddynt?

**Gwnawn.**

*Dywed y gweinidog wrth yr ymgeiswyr*

Trwy ei groes a'i werthfawr waed, fe brynodd ein Harglwydd Iesu Grist y byd. Dywedodd wrthym, os oes neb am fod yn ddilynwyr iddo ef, fod yn rhaid iddynt ymwadu â hwy eu hunain, codi eu croes, a'i ganlyn ef ddydd ar ôl dydd.

*Gwna'r gweinidog arwydd y groes (gydag olew disgyblion bedydd, os dymunir) ar dalcen pob un sydd i'w fedyddio a'i gonffyrmio, gan ddweud wrth bob un*

E, derbyn arwydd y groes. Bydded i Grist ein Hiachawdwr dy amddiffyn a'th gyfarwyddo.

**Amen.**

*Gwna'r gweinidog arwydd y groes ar dalcen pob un sydd i'w gonffyrmio, gan ddweud wrth bob un*

E, derbyn arwydd y groes. Bydded i Grist ein Hiachawdwr, a'th hawliodd di iddo'i hun pan fedyddiwyd di, dy amddiffyn a'th gyfarwyddo.

**Amen.**

*Ar ôl nodi pob ymgeisydd ag arwydd y groes, â'r gweinidog rhagddo*

Yr wyf yn eich derbyn yn ymgeiswyr ar gyfer bedydd a c[h]onffyrmasiwn. Bydded i'r Arglwydd eich bendithio a'ch cadw; bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnoch a bod yn drugarog wrthyh; bydded i'r Arglwydd edrych yn gariadus arnoch a rhoi i chwi ei dangnefedd.

**Amen.**

*Y mae cynrychiolydd o'r gynulleidfa yn croesawu'r ymgeiswyr*

Yr ydym yn eich croesawu'n llawen yn gyd-ddisgyblion i Iesu, gan weddio y bydd i chwi, gyda ni, ddod i adnabod Crist yn well bob dydd, ac y bydd ichwi geisio byw'r bywyd Cristnogol.

*Gall cynrychiolydd arall o'r gynulleidfa gyflwyno copïau o efengyl i'r ymgeiswyr, gan ddweud*

Derbyniwch y llyfr hwn. Mae'n cynnwys y newyddion da am gariad Duw. Bydded yn gyfarwyddyd i chwi.

*Dylid cynnwys gweddiau addas dros yr ymgeiswyr yn yr Ymbiliau, er enghraifft*

Bydded i Dduw'r Tad ddatguddio fwyfwy ei Grist iddynt gyda phob dydd a â heibio.

Bydded iddynt ymgymryd yn haelfrydig â pha beth bynnag y gall yr Arglwydd ei ofyn ganddynt.

Bydded i'w calonnau, a'n calonnau ninnau, ymateb yn well i anghenion eraill.

Bydded iddynt gael eu cadw rhag pob digalondid ac ofn.

Wedi eu glanhau oddi wrth eu pechodau a'u cyfnerthu â'r Ysbryd Glân a'u maethu â bara'r bywyd, bydded iddynt ddod i adnabod Crist yn well, ei garu'n anwylach a'i ganlyn yn nes.

## **iii**

### **CREDO'R APOSTOLION**

*Ar adeg addas wrth eu paratoi, gellir cyflwyno'n ffurfiol Gredo'r Apostolion i'r ymgeiswyr am fedydd a/neu gonffyrmasiwn.*

*Os gwneir hyn yn ystod y Cymun Bendigaid, dylai Credo'r Apostolion gymryd lle Credo Nicea.*

*Y mae'r gweinidog yn annerch yr ymgeiswyr*

Frodyr a chwiorydd, gwrandewch yn ofalus ar eiriau Credo'r Apostolion. Fe'i lluniwyd yn ystod y canrifoedd cynharaf yn grynodedeb o'r Ffydd Gristnogol ar gyfer y rhai a gâi eu derbyn i'r Eglwys. Llefara wrthym am gariad mawr Duw at y byd.

*Y mae'r ymgeiswyr yn gwrando tra dywedir Credo'r Apostolion.*

*Dywed y gweinidog*

Dduw sanctaidd a ffyddlon a digyfnawid, helaetha ein meddyliau â gwybodaeth o'th wirionedd, a dena ni'n ddyfnach i ddirgelwch dy gariad, fel y bydd inni dy wir addoli di, Dad, Mab ac Ysbryd Glân, un Duw, yn awr a byth.

**Amen.**

YMBILIAU DROS YR YMGEISWYR

*Ar achlysur addas, fel y mae diwrnod y bedydd a'r conffyrmasiwn yn nesáu, gellir defnyddio'r Ymbiliau a ganlyn*

Gweddiwn ar yr Arglwydd dros yr ymgeiswyr am *fedydd* a c[h]onffyrmasiwn, a throsom ein hunain, ar inni oll gael ein hadnewyddu gan ras Duw a chael cyd-gyfranogi yn y llawenydd o fod yn ddisgyblion.

Ar i'r ymgeiswyr am *fedydd* a c[h]onffyrmasiwn wrthod o ddifrif bopeth yn eu bywydau sy'n digio Crist ac sy'n groes i'w natur, gweddiwn arnat, O Arglwydd.

**Arglwydd, trugarha.**

Ar i'r rhai sy'n eu hyfforddi yn y ffydd Gristnogol gyfleu iddynt wirionedd dy air, gweddiwn arnat, O Arglwydd.

**Arglwydd, trugarha.**

Ar i'w cefnogwyr fod yn esiamplau byw o'r Efenfyl, gweddiwn arnat, O Arglwydd.

**Arglwydd, trugarha.**

Ar inni oll gynyddu mewn cariad a gweddio'n gyson, gweddiwn arnat, O Arglwydd.

**Arglwydd, trugarha.**

Ar inni rannu ag eraill y llawenydd a gawsom yn ein ffydd, gweddiwn arnat, O Arglwydd.

**Arglwydd, trugarha.**

Ar i'r rhai sy'n petruso ymddiried yng Nghrist ddod o hyd iddo mewn cymdeithas â ni, gweddiwn arnat, O Arglwydd.

**Arglwydd, trugarha.**

*Yna gellir dweud un o'r gweddiâu a ganlyn, neu'r ddwy ohonynt, fel y bo'n addas.*

*Dros yr ymgeiswyr am fedydd a chonffyrmasiwn*

O Dad, trwy Iesu dy Fab caniateaist inni gael ein geni o'r newydd yn yr Ysbryd. Bendithia dy weision hyn wrth iddynt baratoi yn ddifrif at eu bedydd a'u conffyrmasiwn. Sancteiddia hwy mewn paratoad at dy ddoniau, fel y cânt eu geni o'r newydd yn blant i ti ac y deuant yn etifeddion dy deyrnas ac yn aelodau o'th Eglwys: trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**Amen.**

*Dros yr ymgeiswyr am gonffyrmasiwn*

O Dad, bendithia dy weision hyn a fedyddiwyd â dŵr a'r Ysbryd Glân, fel y bo iddynt ddyfalbarhau i ddilyn Crist. Goleua hwy â'th bresenoldeb, a dyro iddynt lawenydd wrth iddynt dy addoli a'th wasanaethu di: trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**Amen.**



## **YMRWYMO I FYWYD A GWASANAETH CRISTNOGOL A CHYFFESU'R FFYDD**

*Yn unol ag amgylchiadau bugeiliol, gellir defnyddio ffurf o Ymrwymiad i Fywyd a Gwasanaeth Cristnogol a/neu ffurf o Gyffesu'r Ffydd naill ai ar achlysuron addas (e.e., ar y Pasg) gyda'r holl gynulleidfa, neu gydag unigolion sydd eisoes wedi eu bedyddio a'u conffyrmio.*

*Pan wneir Ymrwymiad i Fywyd a Gwasanaeth Cristnogol a/neu Gyffes Ffydd yn ystod y Cymun Bendigaid, gellir defnyddio un o'r ffurfiau a ddarperir ar gyfer cyffesu'r ffydd yn lle Credo Nicea.*

*Pan fydd y gynulleidfa gyfan wedi gwneud Ymrwymiad i Fywyd a Gwasanaeth Cristnogol a/neu Gyffes Ffydd, gellir taenellu dŵr y bedydd dros y bobl, neu gellir gwahodd aelodau unigol o'r gynulleidfa i synegi eu hymrwymiad i Grist trwy fynd at y dŵr a gwneud arwydd y groes ag ef ar eu talcen.*

### **Ffurfiâu ar gyfer Ymrwymo i Fywyd a Gwasanaeth Cristnogol**

1

A ydych yn troi at Grist?

**Yr wyf yn troi at Grist.**

A ydych yn edifarhau am eich pechodau?

**Yr wyf yn edifarhau am fy mhechodau.**

A ydych yn ymwrthod â'r drwg?

**Yr wyf yn ymwrthod â'r drwg.**

2

*Gellir defnyddio'r canlynol yn unigol, neu eu cyfuno fel y bo'n addas.*

a

A ydych yn ymwrthod â'r diafol ac â phob gwrthryfel yn erbyn Duw?

**Yr wyf yn ymwrthod â hwy.**

A ydych yn ymwrthod â thwyll a llygredd pechod?

**Yr wyf yn ymwrthod â hwy.**

A ydych yn edifarhau am y pechodau sy'n ein gwahanu oddi wrth Dduw a'n cymydog?

**Yr wyf yn edifarhau amdanynt.**

b

A ydych yn troi at Grist yn Waredwr?

**Yr wyf yn troi at Grist.**

A ydych yn ymostwng i Grist yn Arglwydd?

**Yr wyf yn ymostwng i Grist.**

A ydych yn dyfod at Grist, y ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd?

**Yr wyf yn dyfod at Grist.**

c

**Yr wyf yn ateb galwad Duw fy Nghreawdwr.**

**Yr wyf yn ymddiried yn Iesu Grist yn Waredwr imi.**

**Yr wyf yn ceisio bywyd newydd o'r Ysbryd Glân.**

3

A wnewch chwi ddyfalbarhau yn nysgeidiaeth a chymdeithas yr apostolion, yn y torri bara ac yn y gweddïau?

**Gwnaf, gyda chymorth Duw.**

A wnewch chwi ddyfalbarhau i wrthsefyll y drwg, a, pha pryd bynnag y syrthiwch i bechod, edifarhau a dychwelyd at yr Arglwydd?

**Gwnaf, gyda chymorth Duw.**

A wnewch chwi gyhoeddi ar air ac esiampl newyddion da Duw yng Nghrist?

**Gwnaf, gyda chymorth Duw.**

A wnewch chwi geisio a gwasanaethu Crist ym mhawb, gan garu eich cymydog fel chwi eich hun?

**Gwnaf, gyda chymorth Duw.**

A wnewch chwi ymdrechu am gyfiawnder a heddwch i bawb, a pharchu urddas pob bod dynol?

**Gwnaf, gyda chymorth Duw.**

## *Ffurfiâu ar gyfer Cyffesu'r Ffydd*

1

A ydych yn credu yn Nuw Dad, Creawdwr pob peth?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad.**

A ydych yn credu yn ei Fab Iesu Grist, Gwarddwr y byd?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Fab.**

A ydych yn credu yn yr Ysbryd Glân, Rhoddwr bywyd?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw'r Ysbryd Glân.**

Dyma ffydd yr Eglwys.

**Dyma ein ffydd ni.**

**Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,  
Tad, Mab ac Ysbryd Glân.**

2

*Naill ai*

a

A ydych yn credu yn Nuw y Tad?  
**Credaf yn Nuw, y Tad hollalluog,  
Creawdwr nef a daear.**

A ydych yn credu yn Iesu Grist, Mab Duw?  
**Credaf yn Iesu Grist, ei Fab ef, ein Harglwydd ni.  
Fe'i cenhedlwyd drwy rym yr Ysbryd Glân  
a'i eni o'r Wryf Mair.**

**Dioddefodd dan Pontius Pilat,  
fe'i croeshoeliwyd, bu farw, ac fe'i claddwyd.  
Disgynnodd i blith y meirw.  
Ar y trydydd dydd fe atgyfododd.  
Fe esgynnodd i'r nefoedd,  
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.  
Fe ddaw drachefn i farnu'r byw a'r meirw.**

A ydych yn credu yn Nuw yr Ysbryd Glân?  
**Credaf yn yr Ysbryd Glân,  
yr Eglwys sanctaidd gatholig,  
cymundeb y saint,  
maddeuant pechodau,  
atgyfodiad y corff,  
a'r bywyd tragwyddol.  
Amen.**

Dyma ffydd yr Eglwys.

**Dyma ein ffydd ni.**

**Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,  
Tad, Mab ac Ysbryd Glân.**

Neu

b

A ydych yn credu yn Nuw y Tad?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,  
a greodd bopeth sydd.**

A ydych yn credu yn Iesu Grist, Mab Duw?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,  
a brynodd ddynolryw.**

A ydych yn credu yn Nuw yr Ysbryd Glân?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei  
Ysbryd Glân, sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un  
Duw, Tad, Mab ac Ysbryd Glân.  
Amen.**

Dyma ffydd yr Eglwys.

**Dyma ein ffydd ni.**

**Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,  
Tad, Mab ac Ysbryd Glân.**

3

A ydych yn credu ac yn ymddiried yn Nuw y Tad,  
Ffynhonnell pob bod a bywyd,  
yr Un yr ydym yn bodoli er ei fwyn?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried ynddo.**

A ydych yn credu ac yn ymddiried yn Nuw y Mab,  
a gymerodd ein natur ni,  
a fu farw drosom ac a atgyfododd?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried ynddo.**

A ydych yn credu ac yn ymddiried yn Nuw'r Ysbryd Glân,  
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw,  
ac yn hysbysu Crist i'r byd?  
**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried ynddo.**

Dyma ffydd yr Eglwys.

**Dyma ein ffydd ni.**

**Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,  
Tad, Mab ac Ysbryd Glân.**

## **Gweddïau**

*Ar ôl gweithred unigol o ymrwymiad a/neu gyffes ffydd*

O Arglwydd, edrych gyda ffafir ar dy was/wasanaethferch  
E. Dyro iddo/iddi ddewrder ac amynedd a gweledigaeth;  
a chyfnertha ni oll yn ein galwedigaeth Gristnogol, trwy  
Iesu Grist ein Harglwydd ac yng ngrym dy Ysbryd.

**Amen.**

*Ar ôl gweithred gorfforaethol o ymrwymiad a/neu gyffes ffydd*

*Un o'r canlynol*

Bydded i Dduw hollalluog, Tad ein Harglwydd Iesu Grist,  
a barodd ein geni ni o'r newydd trwy ddŵr a'r Ysbryd  
Glân, ac a faddeuodd inni ein pechodau, ein cadw trwy  
ei ras yn y bywyd tragwyddol, yng Nghrist Iesu ein  
Harglwydd.

**Amen.**

Hollalluog Dduw, diolchwn i ti  
am ein cymdeithas yn nheulu'r ffydd  
â phawb a fedyddiwyd yn dy enw:  
cadw ni'n ffyddlon i'n bedydd,  
a pharatoa ni at y dydd hwnnw  
pan berffeithir yr holl greadigaeth  
yn dy Fab, ein Gwardwr Iesu Grist.

**Amen.**

**Dragwyddol Dduw,  
datgenaist yng Nghrist  
lawnder pwrpas dy gariad:  
bydded inni fyw trwy ffydd,  
rhodio mewn gobaith  
a chael ein hadnewyddu gan dy gariad,  
nes bod y byd yn adlewyrchu dy ogoniant di,  
a thithau'n oll yn oll.  
Boed felly; tyrd, Arglwydd Iesu!  
Amen.**

**DATHLU AR ÔL GWASANAETH BEDYDD  
A/NEU GONFFYRMASIWN Y TU ALLAN I'R PLWYF**

*Pan weinyddwyd Bedydd a/neu Gonffyrmasiwn y tu allan i'r plwyf, fe all y bydd yn addas i'r gynulleidfa arferol gydnabod y newid pwysig hwn. Gellir defnyddio'r dathliad byr hwn naill ai fel y nodir isod yn y Cymun Bendigaid neu yn y Foreol neu'r Hwyról Weddi. Yn y ddau achos olaf, gall gymryd lle'r Ymbiliau.*

*Ar ôl Credo Nicea, y mae'r offeiriad yn gofyn i'r rhai a fedyddiwyd ac/neu a gonffyrmiwyd ddod ymlaen. Y mae'r offeiriad yn annerch y gynulleidfa*

Rhodewn ddiolch heddiw gyda *E ac E* am eu *bedydd a'u* conffyrmasiwn yn ddiweddar.

*Yn achos plant bach a fedyddiwyd yn rhywle arall, dywed yr offeiriad Rhodewn ddiolch heddiw gyda *E ac E* am fedydd eu plant, *E ac E* yn ddiweddar.*

*Âr offeiriad rhagddo*

*A wnewch chwi eu cynnal [gynnal y plant hyn] yn eu bywyd newydd yng Nghrist? A wnewch chwi weddio drostynt [dros eu rhieni a'u rhieni bedydd], a'u hannog i ddilyn Crist?*

**Gyda chymorth Duw, fe wnawn.**

*Dylid defnyddio gweddi neu weddiau addas yn ystod yr Ymbiliau, er enghraifft*

*Gweddiwn dros *E ac E*, ar iddynt barhau i gynyddu yng ngras Crist, ar iddynt gymryd eu lle yng nghymdeithas dy bobl, ac adlewyrchu dy ogoniant yn y byd.*

*[Ar ôl bedydd plant bach]*

*Dyro ras i rieni a rhieni bedydd y plant hyn ac i bawb sy'n gyfrifol am eu tywys ar lwybr ffydd.*

*Ar ôl yr Ymbiliau, y mae'r offeiriad yn annerch y rhai sydd newydd gael eu bedyddio a/neu eu conffyrmio*

*Rhodewn ddiolch gyda chwi heddiw, ac fe'ch cyfarchwn mewn llawenydd.*

**Yr ydym yn gydaelodau o'r Eglwys, Corff Crist,  
yn blant i'r un Tad nefol  
ac yn etifeddion teyrnas Dduw.**

*Y mae'r Tangnefedd yn dilyn.*

# ACKNOWLEDGEMENTS

Thanks are due to the following for permission to reproduce copyright material in this book:

The Church of England: collect 'Heavenly Father...' (pp. 21, 67), 'You have received...' (pp. 33, 79), prayer 'Faithful and loving God...' (p. 39), prayer 'God of grace and life...' (p. 41), prayer 'Eternal God...' (pp. 41, 87), prayer 'Almighty God, we thank you...' (p. 87), Commitment to Christian Life and Service, form 2 (p. 103): from *Common Worship: Services and Prayers for the Church of England* copyright © The Archbishops' Council of the Church of England, 2000; reproduced by permission; 'N and N are preparing...' † (p. 53), 'Eternal and loving God...' † (p. 55), 'N, receive the sign...' (p. 95), 'N, receive this book...' \* (p. 95), first three petitions of the Intercessions (p. 97), 'Holy God...' (p. 97): from *Common Worship: Christian Initiation* copyright © The Archbishops' Council of the Church of England, 2006; reproduced by permission.

The English Language Liturgical Consultation: Affirmation of Faith, form 2 (pp. 105, 107), Affirmation of Faith, form 3 (p. 107): the English Language Liturgical Consultation © 1988, used with permission.

The Episcopal Church in the USA: Commitment to Christian Life and Service, Form 3 (p. 103), 'May almighty God...' (p. 109): from the Book of Common Prayer of the Episcopal Church, 1979.

The Rt Revd Dr David Stancliffe: 'N, God has called you...' (p. 79).

\* indicates that the material has been slightly modified

† indicates that the material has been substantially modified

## ATGYNHYRCHU

Gellir defnyddio darnau o'r testun, sydd hefyd ar gael ar CD, i gynhyrchu llyfryn gwasanaeth ar gyfer eglwys unigol, ar yr amod fod enw'r eglwys neu'r plyyf neu sefydliad arall yn cael ei ddangos yn glir ar y clawr neu'r dudalen flaen. Ni chaniateir gwerthu i drydydd person na rhoi yn ei feddiant ddeunydd a argraffwyd yn y modd hwn. Bydd angen cynnwys y gydnabyddiaeth a ganlyn:

Allan o *Gwasanaethau Bedydd a Chonffyrmasiwn* © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2007, defnyddiwyd trwy ganiatâd.  
Ni chaniateir unrhyw ddefnydd arall.

## REPRODUCTION

Extracts of the text, also obtainable from the CD, may be used in the production of service material for own use, provided that the name of the church, parish or other institution is clearly shown on the first page or cover. Such printed material may not be sold to or otherwise acquired by third parties. An acknowledgement will be required as follows:

From *Services for Christian Initiation* © Church in Wales Publications 2007, used with permission.  
Any other use is not permitted.